Elin Jones AC | AM
Llywydd

Dyddiad: 16 Mawrth 2020

Pwnc: **Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol**

Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

Yn fy marn i, byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil Gwasanaethau Bysiau, a gyflwynwyd ar 16 Mawrth 2020, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ni fyddai elfennau o Adrannau 2 i 6, 8 i 12, 14 i 17 a 21 o'r Bil o fewn cymhwysedd. Y rheswm am hyn yw bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar elfennau o'r darpariaethau hynny er mwyn dod â hwy o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac nid yw'r cydsyniad angenrheidiol hwnnw wedi'i sicrhau ar hyn o bryd. Yn benodol, yr elfennau nad ydynt o fewn cymhwysedd yw'r darpariaethau hynny sy'n ymwneud â swyddogaethau awdurdodau neilltuedig sef:

- Awdurdodau Lleol yn Lloegr,
- y Comisiynydd Traffig,
- yr Ysgrifennydd Gwladol, ac
- awdurdodau neilltuedig i ymgynghori â hwy o dan Adran 124C(5) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

Elin Jones AC

Y Llywydd